Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd yn hybrid

ar

ddydd Mercher, 10 Gorffennaf 2024

Yn bresennol: Y Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr Marc Davies, Meirion Davies, Raymond Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Chris James, Sian Maehrlein, Mark Strong a Carl Worrall

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Elaine Evans, Ann Bowen Morgan,

Hefyd yn bresennol: Mr. Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio, Dr Sarah Groves-Phillips- Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cynllunio, Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth, Rheoli Datblygu, Mr Jonathan Eirug- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – Gogledd, Mrs Sian Holder – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, Mrs Ffion Lloyd – Cyfreithwraig, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Ms Christine Reeves, Uwch Ymgynghorydd, Lambert Smith Hampton, Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau a Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Craffu

(10:00am -1:35pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Gethin Davies a Rhodri Davies am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Cerys Jones y byddai angen iddi adael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ymrwymiadau eraill.

2 Materion Personol

Dymunwyd yn dda i Mrs Sian Holder gan mai hwn oedd ei chyfarfod olaf cyn ei chyfnod mamolaeth.

3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

Datgelodd y Cynghorydd Chris James fuddiant personol a buddiant sy’n rhagfarnu yng Nghais A211186.

Datgelodd Mrs Sian Holder, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng Nghais A240180.

Datgelodd Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng Nghais A230727.

4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024

PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024 fel rhai cywir.

Materion sy'n codi
Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio y cynhelir sesiwn friffio gydag Aelodau ar Apeliadau a TAN 6 maes o law.

5 Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio ar y ceisiadau cynllunio a ganlyn a ystyriwyd mewn cyfarfod blaenorol ac yr oedd angen eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgor:-

A200774 Codi caban gwyliau bach ag un llawr, ynghyd â gwaith tirweddu cysylltiedig, ac adleoli'r fynedfa bresennol sy'n is na'r safon i wasanaethu'r fferm a'r caban gwyliau arfaethedig, Tir ar Fferm Blaenarthen, Brongest, Castellnewydd Emlyn

GOHIRIO'r cais i'r Grŵp Callio yn unol â pharagraff 2 (opsiwn 3) o'r broses ohirio ar gyfer ceisiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu - Gweithdrefnau Gweithredol a hefyd gofyn i'r ymgeisydd gwblhau Asesiad Anghenion Twristiaeth ac Effaith Datblygu.

6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar geisiadau datblygu, hysbysebu; yr awdurdod lleol a statudol:-

Anerchodd Mr Emyr Jones a Mr Rob Jones (Asiantiaid) y pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A211186 Codi siop adwerthu bwyd Dosbarth A1 - Aldi, adnewyddu pafiliwn chwaraeon rhestredig Gradd II, gosod tri phod arddangos o bren parod a chreu ardal natur a bioamrywiaeth, gyda mynedfa, maes parcio a gwaith

tirlunio yn gysylltiedig. Caeau Chwarae Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Heol Pontfaen, Llanbedr Pont Steffan.

GOHIRIO'r cais i'r Grŵp Callio yn unol â pharagraff 2 (opsiwn 3) o'r broses ohirio ar gyfer ceisiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu - Gweithdrefnau Gweithredol.

Anerchodd Jon Wilks y pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230727 Datblygiad preswyl ynghyd â gwaith cysylltiedig gan gynnwys cynllun tirlunio, strategaeth ecoleg a draenio. Tir i'r De o Stryd Alma, Llannarth

CYMERADWYO’r cais yn destun amodau a chytundeb adran 106.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn dymuno iddo gael ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod, bod Cyngor y Gymuned yn ceisio budd cymunedol o'r cais a'u bod yn cynnig ardal wedi'i lleoli y tu ôl i neuadd Llannarth ar gyfer maes parcio y mae'r Datblygwr wedi cytuno iddi.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr James Scarborough yn unol a'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230865 Ystafell arddangos arfaethedig ac adeilad ar gyfer Gweithdy/MOT yn lle'r gweithdy presennol, Garej Whitehall, Stryd Fawr, Llan-non

CYFEIRIO'r cais i'r Panel Arolygu Safleoedd yn unol â pharagraff 2 a 3 o feini prawf mabwysiedig y Cyngor.

A240148 Uned blwch storio (storage container unit) newydd arfaethedig i ddarparu ar gyfer busnes therapi harddwch (at ddefnydd unigryw sui generis), Parc Piliau, Ystâd Ddiwydiannol Pentood, Aberteifi

GOHIRIO penderfynu ar y cais i’r Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn am gadarnhad gan Ddŵr Cymru os oeddent yn barod i ddileu’r amod a argymhellwyd ganddynt yn atal meddiannaeth tan 31 Mawrth 2027 neu hyd nes y bydd y gwaith uwchraddio i waith trin dŵr gwastraff Aberteifi wedi’i gwblhau, bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio wedi’i

awdurdodi i WRTHOD y cais os nad yw Dŵr Cymru yn cytuno i ddileu'r amod.

A240180 Adeiladu uned i gynnwys llety staff dros dro, Neuadd Cyngor Ceredigion, Ffordd Mynediad Swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron

CYMERADWYO'r cais yn destun amodau.

A240417 Diwygiadau Ansylweddol i A190729 i ddiwygio geiriad amodau 12, 15 a 17 i ofyn am ryddhad rhannol o'r amodau 12, 15 a 17 ar gyfer rhan gyfyngedig o'r datblygiad arfaethedig, Llwybr Ystwyth, Tregaron

CYMERADWYO bod caniatâd yn cael ei roi ar gyfer diwygiad ansylweddol i ganiatáu newidiadau i eiriad amod 12, 15 ac 17 yn y drefn honno o ganiatâd cynllunio A190729.

7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig
PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â hwy yn Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio.

8 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim.

9 Apeliadau
CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a gafwyd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 14 Awst 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____